Pris: 50c

# Papur Pawb

Medi 2011 Rhif 369


Tud 15

Diwrnod Hwyl

tud 3 Pobl a Phethe
Tud 7 Sioe Tal-y-bont
Tud 13 Tai Maes-y-deri
Tud 16 Chwaraeon

## "Cafwyd sioe ardderchog eleni"

"Daeth diwrnod y sioe o'r diwedd" meddai Elgan Evans, Cadeirydd Pwyllgor y Sioe. Dyma'r hyn oedd ganddo i'w ddweud wrth Bapur Pawb.

"Braint ac anrhydedd oedd cael fy ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor yn y cyfarfod blynyddol nôl yn Mis Mawrth 2011. Ers hynny bu'n amser prysur iawn arnom fel pwyllgor, wrth baratoi ar gyfer y sioe.

Wrth gwrs roedd llawer o'r pethau pwysig, fel dewis beirniaid a setlo pa gystadlaethau i'w rhoi yn y rhaglen wedi eu gwneud nôl yn mis Tachwedd y llynedd.

Peth rhyfedd iawn oedd eistedd o flaen pwyllgor o bobl hŷn na chi, ond buodd pawb yn gefnogol iawn, a neb fel 'u bod yn malio cymryd ordors (wel! gobeithio nad oeddynt) gan rhywun ifancach.

Ar dudalen 12 cewch ddarllen fy nyddiadur o'r wythnos yn arwain lan at y sioe eleni. Cyn hynny hoffwn fanteisio yma ar y cyfle i ddiolch i bawb a roddodd o'u hadnoddau a'u hamser i sicrhau llwyddiant y sioe ardderchog a gafwyd eleni - y swyddogion, y stiwardiaid, y beirniaid, y cystadleuwyr, y noddwyr, yr aelodau sydd yn cyfrannu at y sioe a phawb a ddaeth i gefnogi ar y diwrnod.



*Paul Watkin, Heulfor yn wên o glust i glust gyda'i iâr fuddugol. Llun: Arvid Parry Jones.*



*Bedwyr Siencyn, Tanrallt a Dylan Wyn Benjamin, Cysgod y Crib*



*Y ddau frawd, Geraint ac Eifion, Cerrigcarannau*

## Papur Pawb

| | | |
|---|---|---|
| **Golygydd Cyffredinol:** | Geraint Evans<br>Garnwen, Tal-y-bont, Ceredigion.<br>post@garnwen.org.uk | (01970) 832473 |
| **Tynnu lluniau:** | Cysyllter â golygyddion y mis. | |
| | **GOHEBYDDION LLEOL** | |
| **Bont-goch:** | Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch | 832566 |
| **Parsel Henllys:** | Dilys Morgan, Alltgoch | 832498 |
| **Eglwysfach:** | Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais | (01654) 781312 |
| **Taliesin:** | Siân Saunders, Is y Coed, Taliesin | 832230 |
| **Tal-y-bont:** | Aileen Williams, Maesmeillion | 832438 |
| | Kathleen Richards, Y Bryn | 832201 |
| **Tre'r Ddôl:** | Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl | 832429 |
| | Janet Evans, Cefngweiriog | (01654) 781260 |
| **Maes y Deri:** | Eirlys Jones, 91 Maes y Deri | 832483 |
| | **CYMDEITHAS PAPUR PAWB** | |
| **Cadeirydd:** | Geraint Pugh, Dôl Pistyll | 832433 |
| **Is-gadeirydd:** | Arthur Dafis, Murmawr, Tal-y-bont | |
| **Ysgrifennydd:** | Sian Pugh, Dôl Pistyll | 832433 |
| **Trysorydd:** | Gwyn Jenkins, Maes Gwyn, Tal-y-bont | 832560 |
| **Aelodaeth:** | Glenys Edwards, Cartrefle , Tal-y-bont | 832442 |
| **Hysbysebion:** | Wendy Fuller, Pandy, Ffwrnais | (01654) 781312 |
| **Plygu:** | Gwenllian Parry Jones, Lyn Hammonds | |
| **Dosbarthwyr:** | Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwenllian Parry-Jones,<br>Bleddyn Huws (Tanysgrifiadau) | |

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg


### LLUNIAU FFYDD

Yn ystod misoedd Medi a Hydref bydd arddangosfa gelf wahanol i'r arfer i'w gweld yng Nghanolfan y Morlan, sef Lluniau Ffydd. Bydd yr arddangosfa yn cynnwys gwaith gan wyth artist gwahanol ac yn cyfleu eu dehongliad nhw o 'ffydd', neu beth dybian nhw sy'n cynrychioli 'ffydd' yn yr unfed ganrif ar hugain. Yr artistiaid yw Cefyn Burgess, Marian Delyth, Anthony Evans, Ruth Jên, Gareth Owen, Kevin Pople, John Rowlands a Diana Williams.

Cadwyd y thema'n benagored iawn yn bwrpasol ac aethpwyd ati i gael trawsdoriad o artistiaid yn rhan o'r arddangosfa – o ran arddull a chyfrwng. Nod y Morlan yw cyflwyno casgliad gwreiddiol ac amrywiol o gelf – yn ddelweddau traddodiadol ac yn ddelweddau cyfoes, rhai yn ddwys, eraill efo elfen o hiwmor efallai – er mwyn ysgogi ymateb a thrafodaeth.

Bydd yr arddangosfa yn rhedeg o 5 Medi i 15 Hydref ac yn cael ei hagor yn swyddogol ar nos Fawrth, 13 Medi am 6.30 gan Llinos Dafis. Mae yna groeso mawr i unrhyw un fynychu'r agoriad hwn. Fel arall, oriau agor swyddogol yr arddangosfa yw Llun i Gwener, 10.00-12.00 a 2.00-4.00 ond, wrth gwrs, y mae natur y Morlan yn golygu y bydd modd gweld y celfweithiau ar adegau eraill hefyd.

---

Dymuna Bob Southgate a'r teulu ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth tuag at y twrnameint darts a pŵl a gynhaliwyd er cof am Steven Southgate, yn y Llew Gwyn, yn ddiweddar. Diolch hefyd i Shaun a Nicky Byrne a'r staff i gyd am eu help.
Fe gasgliwyd £554 tuag at Ffagl Gobaith. a gobeithir gynnal yr unpeth blwyddyn nesaf. Gwelir llun ar y dudalen gefn.

### Cywiriad

Wrth dalfyrru'r eitem am wirfoddoli ym Mentro Lluest yn rhifyn Mehefin 2011 Papur Pawb, crëwyd camargraff bod yn rhaid ffonio cyn ymweld â'r safle. Y gwir amdani yw y gall unrhyw un alw heibio yn ystod ein horiau agor (ddydd Llun tan ddydd Gwener 9.00yb - 4.00yh) heb drefnu ymlaen llaw.

Golygyddion y rhifyn nesaf yw Gwilym ac Eleri 832231, gehpengwern@yahoo.co.uk; gyda Ceri y dylunio stiwdio@ceri-tal-y-bont.com. Y dyddiad cau yw 7 Hydref ac fe fydd y papur ar werth ar 14 Hydref.

## Dyddiadur

**Medi**

**11** **Bethel** 10 *Gwasanaeth Teulu Efan Williams*
**Nasareth** 10 *M.J. Morris*
**Rehoboth** 5 *Bugail ( C )*
**Bethesda, Tynant** *Parch Judith Morris 2 y.p*

**14** Pwyllgor y Neuadd 8

**15** **Sefydliad y Merched** 2 *'Ambulans Awyr Cymru'*

**18** **Bethel** 10 *Parch Ifan M. Davies (C )*
**Nasareth** *Uno ym Methel*
**Rehoboth** 2 *Parch Elwyn Pryse*

**19** Merched y Wawr Neuadd 7.30

**25** **Bethel** 10 Parch Roger Thomas
**Nasareth** 2 *Parch J.Tudno Williams*
**Rehoboth** 2 *Parch Ifan M. Davies*

**26** Pwyllgor Cymuned Ceulanamaesmawr Neuadd 7.30

**Hydref**

**2** **Bethel** 10 *Uno yn Nasareth*
**Nasareth** 10 *Cwrdd Diolchgarwch*
**Rehoboth** 5 *Bugail (C )*
**Bethesda, Tynant** Cwrdd Diolchgarwch *Beti Griffiths 2y.p*

**4** **Sefydliad y Merched, Taliesin** *Gwaith Ynad Heddwch Llan Fach 7.30*

**8** Canolfan y Celfyddydau, *Aberystwyth*
*Cyngerdd Côr Meibion Pontardulais ac Artisitaid Lleol*

**9** **Bethel** 10 *Oedfa Diolchgarwch* Undebol y plant
**Nasareth** *Oedfa'r Ofalaeth ( Garn*)
**Rehoboth** *Oedfa'r Ofalaeth*


**EGLWYS DEWI SANT**
Tal-y-bont
Cynhelir
**Bore Coffi**
yn Neuadd Goffa, Tal-y-bont
**ar fore Sadwrn, 1 Hydref**
rhwng **10.30** a **12.00** o'r gloch
Tâl mynediad: £2.00;
plant am ddim
Stondinau / Raffl
**Croeso cynnes i bawb**



**CARTREF TREGERDDAN**
Cynhelir te moethus yn y cartref ar
**ddydd Mawrth**
**10fed Medi**
am 2.30 y prynhawn
Croeso cynnes i bawb.
Pris mynediad £2


Hoffem fel teulu ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth, eu haelioni a'u caredigrwydd, nid yn unig yn ddiweddar, ond dros waeledd Geraint yn gyffredinol.

Diolch yn enwedig i Griw Clocswyr Ceulan am drefnu noson arbennig yn ddiweddar ac i bawb gyfrannodd yn hael – boed yn amser, yn ddiddanwyr, yn wobrau raffl, yn gâcennau neu'n ariannol. Diolch hefyd i Gapel Bethel am eu rhodd caredig.

Mae'r tri ohonom yn ei werthfawrogi yn fawr iawn ac yn falch cael bod yn rhan o gymuned mor glos.
Anwen, Carys a Geraint, Brynfa, Tal-y-bont

**Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) glenysedwards33@btinternet.com o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.**


Noddir gan Llywodraeth Cynulliad Cymru

Cydnabyddir cefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r cyhoeddiad hwn
BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD



**Cefnogwch ein hysbysebwyr**

# Pobl a Phethe

**Diaconiaid Newydd**
Mewn gwasanaeth fore Sul 24 Gorffennaf, yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont, derbyniwyd tri o ddiaconiaid newydd i'r Eglwys, sef Phil Davies, Gwynionydd; Falyri Jenkins, Maesgwyn, ac Enoc Jenkins, Ty'n Graig. Estynnwyd croeso i'r tri gan y Gweinidog, y Parch. Richard Lewis, a gofynnwyd iddynt ddosbarthu'r elfennau ymysg y gynulleidfa am y tro cyntaf. (llun tud 14)

**Priodas Ruddem**
Llongyfarchiadau i Glyn a Gill Saunders Jones, Fferm y Fagwyr, Tal-y-bont, a ddathlodd ddeugain mlynedd o fywyd priodasol ddydd Sul 14 Awst.

**Llongyfarchiadau**
Yn dilyn llwyddiant mewn arholiadau diweddar llongyfarchiadau i nifer fawr iawn o'n pobl ifanc fydd yn mynd i ffwrdd i Goleg, i'r rhai hynny'n sydd am astudio ymhellach i gael graddau uwch ac i'r rhai sy'n cychwyn ar yrfaeodd newydd.  Dymunwn yn dda iddynt. Fe fyddai Papur Pawb yn falch iawn o glywed eich hanes o bryd i'w gilydd. Cadwch mewn cysylltiad. Ewch i'n gwefan: **www.papurpawb.com**

**Cydymdeimlad**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Alun ac Enid Jones, Gwyddfor, Bow St ar golli eu mab Gwion Rhys yn ddisymwth mewn damwain car.  Mae Alun yn olygydd Cymraeg i wasg Y Lolfa. Cofiwn hefyd am y golled i Ian Jones, Ty Morlais, Tal-y-bont, roedd Gwion ac Ian yn gefndryd cyntaf.

Bu farw Dr Dafydd Huws, gynt o Fynydd Gorddu, Bont-goch  yn dawel ar y 3ydd o Orffennaf, yn ei gartref Ffwrnes Blwm, Caerffili, ar ôl salwch blin a wynebodd yn ddewr iawn.  Cydymdeimlir yn ddiffuant iawn â'i briod Rhian, a'u plant Gwenan, Aled, Elen, Carys a Geraint a'u teuloedd. Y mae Elen a'i gwr Steffan bellach yn byw yn yr hen gartref yn Bont-goch.



*Lowri Fleming ar Rheidol Snow Princess yn ennill dosbarth marchogaeth ceffylau gwedd yn Sioe flynyddol ceffylau gwedd Gorllewin Cymru yn Llanybydder.*



*Aelodau Ysgol  Sul Bethel, Tal-y-bont, y tu allan i gapel Bethesda Tŷ Nant ar ôl iddynt gynnal oedfa yno ym mis Gorffennaf.*

Cydymdeimlwn â'r Athro Lynda Warren, Ynys Einion, Eglwysfach sydd wedi colli ei thad yn ddiweddar

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Dr Tamsin Davies, Ffwrnais, a gafodd ei derbyn i'r Orsedd yn Eisteddfod Cenedlaethol Wrecsam ac i'w rhieni balch Yr Athro a Mrs Russell Davies, Nantgrisial, Ffwrnais.

Am gamp tipyn yn wahanol danfonwn longyfarchion i Jane Bailey, Troedrhiwseiri, Bontgoch, wedi iddi ennill cap cenedlaethol  tros Gymru am chwarae hoci i rai dros 50 oed! Dal ati Jane

**Gwellhad Buan**
Dymuniad gorau i Billy Swanson Ty Coets, Glandyfi sydd yn Ysbyty Bronglais

**Pen-blwydd Hapus**
Penblwydd hapus iawn a dymuniadau gorau i Garnon Owen, Gerddi Gleision, Bont-goch, a ddathlodd ei ben-blwydd yn 40 oed yn ddiweddar.

**Croeso**
Croeso cynnes iawn i Ffion Breese a Phil Hatfield sydd wedi ymgartrefu yn eu ty newydd, Swn-y-gwynt, Bont-goch. Dymunwn yn dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

Croeso i denantiaid newydd Cilgant-y-coed, Tre Taliesin, Berian, Ruth, Bethan ac  Ifan Lewis a'r ci! Gobeithio y byddant yn mwynhau byw yma.

**Ymddeoliad Hapus**
Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i Ann Humphreys, Llysteg, Taliesin, ar ôl 22 o flynyddoedd o hebrwng plant i'r uned arbennig yn Ysgol Llwyn yr Eos, Penparcau.

**Yn Nain a Thaid Unwaith Eto**
Llongyfarchiadau i Richard a Liz Spencer, Tŷ  Manceinion, Taliesin ar enedigaeth eu pedwerydd ŵyr ym mis Mai eleni, Oliver Richard Joshua Lawton, sy'n byw gyda'i rieni, Josie ac Ed a'i chwaer, Hazel, ger y Fenni.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Glenys a Jack Evans, Llwynysguborwen ar enedigaeth wyres fach newydd, sef Lleucu Wyn, merch fach i Deulwyn a Nia a chwaer i Mirain Wyn.  Bydd dathlu mawr eto yn Y Llwyn ar y 18fed o Fedi wrth i Glenys a Jack ddathlu eu priodas rhuddem.

**Arholiad Telyn**
Llongyfarchiadau i Medi Evans, Neuadd Fawr, Tal-y-bont ar basio ei gradd saith ar y delyn.

**Dyweddiad**
Llongyfarchiadau i Cathryn Lloyd-Williams, Min y Gors, Taliesin (Moelgolomen gynt) a Cynrig Williams, Caerfyrddin are eu dyweddiad.

**Ar y Teledu**
Braf oedd gweld Dilys Morgan Alltgoch yn beirniadu yn y Sioe

Fach a gynhaliwyd ar raglen Byw yn yr Ardd ar nos Lun Gwyl y Banc.

**Priodas Rhuddem**
Llongyfarchiadau i Anne a Tony Jones, Tremafon, Tal-y-bont ar ddathlu eu priodas rhuddem ar y 4ydd o Fedi.

**Enghraifft o beryglon y ffordd fawr**
Nos Iau 1af o Fedi, bu damwain wrth y gyffordd â'r briffordd ar ben y lôn o Neuadd yr Ynys yn Nhre Taliesin rhwng car a moto-beic. Anafwyd gyrrwr y moto-beic. Unwaith eto dyma enghraifft o beryglon y ffordd fawr yn y pentre, yn enwedig yng nghyffiniau'r gyffordd anodd yma.

**Cydymdeimlo**
Trist oedd clywed am farwolaeth Dr Gwyn Penrhyn-Jones, Carreg Lwyd, Tal-y-bont. Danfonwn ein cydymdeimlad at Mrs Mona Jones  a'u plant, Nia, Huw a John.  Fe fydd teyrnged i'w chael ym Mhapur Pawb mis Hydref.

Cydymdeimlwn gyda Dilwyn a Carys Jones, Llys Eleri a'r teulu ar farwolaeth tad Dilwyn, Mr Stanley Jones, Bryncrug.

Rhaid cydymdeimlo hefyd gyda Mrs Jones, Jen a Gwynfor, Erwlon Tal-y-bont, ar farwolaeth chwaer Mrs Jones  a modryb i Jen yn Y Barri.

**Brysiwch wella**
Dymunwn wellhad llwyr a buan  i Alasdair Rhodes, Shaun Byrne, Eurig Richards, Geraint Howard a Stephen Cefngweiriog sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Hyfforddiant hyweddu**
Da iawn clywed fod Caryl Williams, Penrhos wedi ennill gwobr yng nghystadleuaeth Dressage U.K. Llongyfarchiadau i ti.

**Profiad o ddysgu gwych i blant**
Ar ddiwedd tymor ysgol y llynedd fel rhan o'i gwrs yn Y Drindod, bu Steffan Nutting, Ty Hen Henllys, ar brofiad dysgu yn Ysgol Gynradd Gwenllian yng Nghydweli. Fel rhan o'r gwaith ysgol roedd y plant yn astudio hanes Gwenllian y dywysoges ddewr. Roedd yr athrawes wedi creu llyfr o'r hanes felly penderfynodd Steffan greu ffilm o'r stori ar gyfer prosiect diwedd tymor y dosbarth. Bu Steffan yn ffilmio'r plant yn actio'r hanes yn y castell yng Nghydweli. Clywodd Wedi3 am yr hanes ac anfonwyd criw ffilmio i ffilmio'r perfformiad cofiadwy.

**Enillwyr yn Eisteddfod Wrecsam**
Daeth nifer fawr o wobrau i bobl ifanc yr ardal yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, ynghyd â digonedd o brofiad cystadlu a hwyl wrth ymarfer.  Llongyfarchion i bawb. Enillodd Sam Ebenezer yr Unawd i Fechgyn 16–19 oed; roedd Catrin Mai, Tŷ Gwyn a Delyth Huws, Henllan Tal-y-bont yn aelodau o Barti'r Greal a enillodd y Parti Cerdd Dant Agored; roedd Niamh a Tara yn rhan o grŵp a ddaeth yn 3ydd yn y Dawnsio Disgo/Hip-Hop; Clocswyr Ceulan - Lois, Elan, Jeno, Elen, Medi, Esther ac Efa a ddaeth yn drydydd yn eu cystadleuaeth. Rhywun ddim mor heini ac ifanc yn gorfforol â'r uchod oedd Dr Bleddyn Owen Huws, Henllan, a glywyd yn darlithio ar Guto'r Glyn.

# Diwrnod Mawr



*Catrin Williams, Maesmeillion a Darren Jones o Rachub a briodwyd yng Nghapel Bethel, Tal-y-bont ganol mis Awst*

**Eglwys St. Pedr, Elerch**
Cydymdeimlir â theulu y diweddar Mrs Irene Catherine Barber, gynt o 11 Afallen Deg, Bow Street, a fu farw ar 22 Mehefin 2011 yn 93 oed. Cynhaliwyd ei gwasanaeth angladdol yn Eglwys Elerch ar 28 Mehefin dan ofal Yr Hybarch Hywel Jones. Rhoddwyd Mrs Barber i orwedd ym mynwent yr Eglwys gyda'i phriod, y diweddar Mr Arthur Barber.

Cynhaliwyd y chweched noson flynydddol a llwyddiannus iawn o gaws, gwin a chân yn yr Eglwys ar 24 Mehefin. Hyfryd oedd gweld yr Eglwys yn orlawn i glywed Côr Meibion Caron, Ensemble Taliesin a thalentau gwych plant Ysgol Gynradd Tal-y-bont yn ein diddanu. Diolch i bawb a gefnogodd y noson, ac edrychwn ymlaen at ddigwyddiad tebyg mis Mehefin nesaf. Mae'r trefniadau eisoes ar y gweill.

Hyfryd oedd gweld ein ficer, Y Parch John Livingstone yn bresennol ar y noson, a bellach mae wedi ail gydio yn ei ddyletswyddau fel offeiriad y plwyf ar ôl absenoldeb o flwyddyn. Rydym mor falch i weld ei fod wedi gwella mor dda ar ôl ei salwch diweddar, a dymunwn yn dda iddo ar gyfer y dyfodol.

Mae'r gwaith o drwsio ac addurno muriau a nenfwd yr Eglwys yn mynd yn ei flaen yn hwylus, a gobeithir y bydd y rhan yma o'r gwelliannau wedi eu cwblhau ymhen tua mis.

**GOLYGYDD CYFFREDINOL**
Mae Dr Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont, wedi rhoi'r gorau i fod yn olygydd cyffredinol Papur Pawb wedi pum mlynedd o wasanaeth clodwiw ac effeithiol.  Ei olynydd yw Gwyn Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont.  Mae Gwyn yn awyddus i wrando ar farn y bobl a byddai'n croesawu awgrymiadau ar sut i wella'r papur. Ei gyfeiriad ebost yw golygydd@papurpawb.com



pp.indd 4 6/9/11 21:57:04

# Olrhain teulu yn Elerch

Ar ddiwedd mis Mehefin ymwelodd Mr Neville Richards o Whitchurch, Swydd Hampshire, ag ardal Bont-goch am y tro cyntaf erioed a hynny er mwyn olrhain ei gyndeidiau. Cafodd gyfle i ymweld ag Eglwys Elerch lle mae ei hen hen fam-gu Margaret Evans) wedi ei chladdu a gwelodd feddau eraill y teulu sydd â chysylltiad â ffermydd Pant-y- ffynnon a Bwlchrosser. Ganed mam-gu Neville, Margaret Owen (*m.*1940) ym Mhant-y-ffynnon yn 1884, a phriododd John Richards yn Eglwys Llanilar; mae'r ddau wedi eu claddu ym mynwent Blaenplwyf. Roedd tad Margaret, sef John Owen yn hannu o Glynnog Fawr, ger Caernarfon a'i mam Elizabeth Evans yn enedigol o'r Felin, Ponterwyd, cyn ymsefydlu fel morwyn ym Mlaenau Ffestiniog lle cyfarfu â'i gwr.

Beth sy'n gwneud y stori hon yn ddiddorol yw holl symudiadau'r teulu. Er bod gwreiddiau'r teulu yn ardal Clynnog a Phonterwyd, aethont wedyn i fyw i Flaenau Ffestiniog, cyn symud unwaith eto i Geredigion. Fodd bynnag, yn 1888, ymfudodd John Owen, ei briod Elizabeth, a'i thri plentyn i dalaith Vermont, i ardal chwarelyddol Fairhaven yng ngogledd ddwyrain yr Amerig lle roedd ei frawd Henry wedi ymsefydlu yn 1880. Ond yn dilyn marwolaeth gynamserol y fam Elizabeth Owen dychwelodd dau o'r plant i Gymru, sef yr efeilliaid Margaret ag Anne, a hynny cyn 1901. Priododd Anne Evans, chwaer Elizabeth Evans, John Jenkins, Bwlchrosser.

Cafodd Mr Richards a'i briod gyfle i ymweld â Bwlchrosser yn ystod eu harosiad yn yr ardal, ac fe'i gwelir yn y llun gyda Mrs Joan Dare, y perchennog presennol. Mae Mr Richards yn gefnder i'r darlledwr cyfarwydd ei lais fel darllenydd newyddion BBC Radio Cymru, Wyndham Richards.

Os hoffech gysylltu â Mr Neville Richards, gyda unrhyw wybodaeth ychwanegol am ei deulu, ei gyfeiriad yw: 26 Hillside, Whitchurch, Hants. RG28 7SN (01256-893212)


Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659


## SIOE ARDDWRIAETHOL LLANGYNFELYN

Yn unol â'r penderfyniad a gymerwyd yng ngyfarfod arbennig y sioe ar 11.10.1991, rydym yn ysgrifennu i wahodd ceisiadau oddi wrth unrhyw un sydd â diddordeb mewn ail-gychwyn y sioe yn 2012.

Oni ddaw cais **erbyn 31 Hydref**, bydd yr ymddiriedolwyr yn trosglwyddo asedau'r sioe i Gyngor Cymuned Llangynfelyn i'w defnyddio at les y gymuned.

Am ragor o fanylion ffoniwch:
**01970 832672**


Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu
Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol
Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

papurpawb.com


**Nos Sadwrn Hydref 8**
Cyngerdd gyda
**Côr Meibion Pontardulais**
ac artisiaid Lleol yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth

*Elw at Apel Nyrs Calon Ceredigion*

# Treialon Cŵn Defaid Tal-y-bont

Cynhaliwyd treialon cŵn defaid Tal-y-bont fel arfer ar y dydd Mercher cyntaf yn Awst sef Awst 3ydd eleni. Gwawriodd yn braf a pharhaodd y tywydd felly drwy'r dydd a hynny mewn dyddiau oedd wedi gweld tipyn o niwl a glaw. Cynhaliwyd y treialon, fel arfer ers sawl blwyddyn bellach, ar gaeau Llety Ifan Hen, er nid ar y cae arferol a phrofodd y llechwedd serth ar y cae yma broblemau i nifer o'r cystadleuwyr.

Dechreuodd y rhediad cyntaf ychydig cyn wyth y bore ac roedd wedi naw yr hwyr pan ddaeth y cystadlu i ben. Unwaith eto roedd naws ryngwladol i'r treialon gyda chystadleuwyr o'r Almaen, yr Eidal a'r Iseldiroedd.

Ar ddiwedd y dydd diolchodd y cadeirydd Emyr Davies, Llety Ifan Hen, i'r rhai fu'n stiwardio yn, ystod y dydd, i'r cystadleuwyr am eu cefnogaeth eleni eto, ac yn enwedig i'r beirniad, John Price o Gwmerfyn a'i ferch Danielle am eu gwaith dros ddiwrnod hir. Yna cyflwynodd y llywydd, Ieuan Morgan, a gofyn iddo gyflwyno'r gwobrau. Cyn cyflwyno'r gwobrau diolchodd y llywydd i deulu Llety Ifan Hen am y defnydd o'r cae a'r defaid ar gyfer y treialon unwaith eto eleni.

Yn ystod y bore daeth Llyr Evans o Bronant â thair cwpan yn ôl oedd wedi eu hennill y llynedd – ar ddiwedd y dydd aeth â'r union wobrau adref gydag ef – llynedd gyda'i gi Sam, eleni gyda'i ci arall sef Zac. Enillodd y wobr am y rhediad orau yn y dull De Cymru a'r cwpan er cof am Evan Hopkins, y wobr am y rhediad dull De Cymru cyfyngedig i Geredigion a'r cwpan er cof am D J Williams Cynnullmawr, y cyntaf am y nofis dull De Cymru ac yna y cawg rhosynau er cof am Richard Edwards Lletyllwyd am y rhediad orau yn ystod y dydd. Yn agos tu ôl iddo, gydag ond dau bwynt o wahaniaeth yn y dosbarthiadau hyn i gyd, oedd Dewi Jenkins, Tyngraig gyda'i gi Moss. Enillwyd y brif gystadleuaeth arall, sef y rhediad orau yn y dull rhyngwladol, gan gystadleuydd o'r Amlaen.

Enillwyd y treialon lleol a gynhaliwyd y noson cynt gan Erwyd Howells gyda'i gi Spot.

Yn hwyr y prynhawn cynhaliwyd cystadlaethau cneifio gyda Bob Williams, Penywern yn beirniadu a cafwyd cystadlu brwd ym mhob dosbarth. Enillwyd y dosbarth agored gan Enoc Jenkins Tyngraig gyda Dilwyn Evans Tynant yn ail ac Elgan Evans Tynant yn drydydd. Yn y dosbarth agored i aelodau Clwb Ffermwyr Ieuanc Rhydian Evans, Tynant enillodd gydag Elgan Evans yn ail a Rhys Richards, Clap y Cripiau yn drydydd. Ceredig Lewis, Trefaes Uchaf enillodd y dosbarth i aelodau Clwb Ffermwyr Ieuanc o dan 21 oed gyda Dewi Jenkins Tyngraig yn ail a Llyr James Penbanc yn drydydd.



pp.indd 5 6/9/11 21:57:06

# Sefydliad y Merched Taliesin

Gwaith Archifdy Aberystwyth fu testun Helen Palmer yn ein cyfarfod mis Mai. Rhoddodd i ni ddisgrifiad manwl o waith yr Adran gan edrych ar esiamplau o'r deunydd hanesyddol sydd ganddynt.

Ym mis Mehefin bu ymweliad i Melin Ganol, Llanrhystud. Noson hynod ddiddorol gyda'r perchnogion wedi adnewyddu'r adeilad, y rhod ddŵr a'r peiriannau i falu blawd cyflawn. Cawsom flasu cacennau a wnaethpwyd o'r blawd a chyfle i brynu er mwyn gwneud ein bara cartref ein hunain. Aethom am bryd ysgafn yn y Llew Du cyn troi am adref.

Ym mis Gorffennaf, cafwyd arddangosfa a sgwrs hynod ddiddorol gan Dr Judy Chamberlain, Tal-y-bont. Mae Judy wedi ei hyfforddi fel therapydd cyflenwol a chafwyd sgwrs am Reiki ac alergeddau - daeth nifer o'r aelodau ymlaen a chael cyfle i ddadansoddi gwahanol alergeddau oedd yn effeithio arnynt.

Aethpwyd ar ein gwibdaith flynyddol ddydd Sadwrn 16 Gorffennaf gan ymweld â Gerddi Cae Hir, Cribyn, yna ymlaen wedyn i Lanbed ac ar ôl cinio a thipyn o siopa, i fyny i Dregaron i Ganolfan Cymunedol y Barcud a gwrando ar sgwrs hynod ddiddorol am y Barcud, Tre Tregaron yn amser y Porthmyn, Twm Sion Cati a Henri Richards y bydd y flwyddyn nesa yn ddathliad 200 mlynedd ei eni. Cafwyd amser hefyd i ymweld â Chanolfan Aur Rhiannon cyn teithio am swper hynod flasus ym Mhenlanlas, Rhydyfelin a chyfle, tra'n aros am fwyd yn y Bistro, i gasglu mefus a mafon.

Yn ychwanegol i'r cyfarfodydd misol arferol, mae'r aelodau'n cwrdd ar drydydd prynhawn Sul bob mis, i fynd am dro ar hyd llwybrau a lonydd yr ardal gyda thywysydd newydd bob mis – gyda'r pwrpas o werthfawrogi harddwch yr ardal, cryfhau cyfeillgarwch a chadw'n heini! Mae'r tri nod yn datblygu'n araf ac yn bositif dros y naw mis diwethaf yma ac edrychwn ymlaen at dymor diddorol a hwyliog eto o fis Medi ymlaen.

# Llygedyn o Obaith i Wasanaethau Clettwr?

Mae pentrefwyr Tre'r Ddôl a Thaliesin wedi gweld colled fawr ers i Wasanaethau Clettwr gau yn 2010. Hon oedd siop olaf Llangynfelyn ac ers hynny mae trigolion y plwyf yn gorfod teithio mewn car neu fws i brynu papur neu dorth o fara. Mae cau'r caffi a'r orsaf betrol hefyd wedi effeithio ar y pentrefwyr yn ogystal â theithwyr oedd yn mynd a dod ar hyd yr A487.

Yn ddiweddar, gwahoddodd y perchnogion, Huw a Sue Lewis, y gymuned i gyfarfod cyhoeddus i drafod y posibilrwydd o ddatblygu menter neu gyfleuster cymunedol posibl ar y safle. Mynychodd dros 60 o bobl y cyfarfod ac mae hynny'n arwydd o'r awydd mawr yn y gymuned i weld y cyfleusterau'n ail-agor. Yn y cyfarfod, penderfynwyd ffurfio gweithgor o wirfoddolwyr a fydd yn ymchwilio i'r opsiynau a'r dichonolrwydd o sefydlu menter gymunedol ar y safle. Cyfarfu'r grŵp ddiwedd mis Gorffennaf i gytuno ar ei amcanion a phenderfynwyd ar enw - Cwmni Clettwr.

Dros yr wythnosau nesaf, bydd y grŵp yn edrych ar enghreifftiau eraill o fentrau cymunedol ac yn ceisio diffinio cwmpas y fenter yn y dyfodol ar wasanaethau Clettwr a pha fath o sefydliad i'w ffurfio. Mae'n gyfnod cyffrous, llawn her i gymuned Llangynfelyn ac mae gwaith caled o'u blaenau! Mae'r fenter yn dibynnu ar gefnogaeth y gymuned i lwyddo a bydd y gweithgor yn ymgynghori yn yr Hydref  i wrando ar farn a dymuniadau'r gymuned. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â Tom Cosson, Brynarian, Taliesin, ar tomallio@tiscali.co.uk neu 01970 832128.



*Cynrychiolwyr o Gwmni Clettwr*





**Gwesty'r Llew Du**
**Black Lion Hotel**

**Swyddi Newydd**

Am fanylion pellach edrychwch ar ein gwefan o ganol mis Medi

Cyfle i fod yn rhan o dîm newydd brwydfrydig

**www.gwestyllewdu.com**




pp.indd 6 6/9/11 21:57:19

# SIOE TAL-Y-BONT

**GWARTHEG**
**DA DUON CYMREIG**
**Llo Tarw**
2. Trefor Jones, Cwmcae
**Heffer**
3. Trefor Jones
**Heffer Iau**
3. Teulu Cerrigcarannau
**Llo a aned yn 2011**
3. Teulu Cerrigcarannau

**BUWCH A LLO MEWN LLO**
1. Teulu Cerrigcarannau

**DA GODRO**
**Heffer**
1 a 2. Teulu Cerrigcarannau
3. G & R Watkin, Henllys
**Heffer Gyflo**
1 a 2. Teulu Cerrigcarannau
3. G & R Watkin
**Buwch neu Heffer Sych**
1. G & R Watkin
**Heffer sy'n Llaetha**
1 a 2. Teulu Cerrigcarannau
3. G & R Watkin
**Buwch Odro**
1. Teulu Cerrigcarannau
2 a 3. G & R Watkin
**Pâr o wartheg**
1 a 2. G & R Watkin
3. Teulu Cerrigcarannau
Pencampwr: Teulu Cerrigcarannau
**Cilwobr**: G &R Watkin

**DEFAID**
**DEFAID MYNYDD CYMREIG**
**Hwrdd, dwy flwydd oed ac yn hŷn**
1 & 2. Dyfed Evans, Glanrafon
3. Teulu Tyngraig
**Hwrdd Blwydd**
1 a 2. Dyfed Evans
3. Teulu Tyngraig
**Oen Hwrdd**
1. Teulu Tyngraig
3. Dafydd Jenkins, Tanrallt
**Dwy Ddafad, dwy flwydd oed ac yn hŷn**
1. Dafydd Jenkins



**Dwy Ddafad Blwydd**
1 a 3. Dafydd Jenkins
2. Teulu Tynant
**Dwy Oen Fenyw**
2. Teulu Tyngraig
**Cwpan y Grŵp**
1. Dafydd Jenkins
2. R Bailey, Lletyifanhen
**Cwpan am Bâr o Hyrddod**
1. Dyfed Evans
3. R Bailey
**Cwpan am yr Hwrdd Gorau**
**Pencampwr**: Teulu Tyngraig
**Cilwobr**: Dyfed Evans
**Cwpan am yr Oen Hwrdd Gorau**
**Cilwobr**: Teulu Tyngraig
**Pencampwr yr Adran**: Dyfed Evans
**Cilwobr**: Dyfed Evans

**DEFAID JACOB**
**Hwrdd**
3. R Bailey
**Oen Hwrdd**
3. R Bailey
**Dafad**
3. R Bailey
**Dafad Flwydd**
2. R Bailey

**DEFAID TEXEL**
Hwrdd
1. Dylan Morgan, Alltgoch
**Dafad**
1 a 3. Dylan Morgan
**Oen Fenyw**
1. Dylan Morgan
**Grŵp**
1. Dylan Morgan
**Pencampwr**: Dylan Morgan
**Cilwobr**: Dylan Morgan



*Gwion Evans, Tanllan a gafodd ddiwrnod prysur o gystadlu*

**DEFAID DORSET MOEL A CHORNIOG**
**Hwrdd**
1. Griffiths a Davies,Dolclettwr
**Oen Hwrdd**
1. Griffiths & Davies
**Dafad**
2. Griffiths a Davies
**Dafad Flwydd**
1. Griffiths a Davies
**Oen Fenyw**
2 a 3. Griffiths a Davies
**Oen Fenyw heb ei thocio**
2. Griffiths a Davies
**Grŵp o Dri**
1. Griffiths a Davies
**Pencampwr**: Griffiths a Davies

**DEFAID SUFFOLK**
**Hwrdd**
2. Huw Jones, Llety Cynnes
**Oen Hwrdd**
1. Huw Jones
**Oen heb ei docio**
2. Huw Jones
**Dafad**
2. Huw Jones
**Oen Fenyw**
3. Huw Jones

**DEFAID BRIDIAU PUR ERAILL**
**Hwrdd**
1. Gwion Evans,Tanllan
**Oen Hwrdd**
1. Gwion Evans
**Dafad**
1 a 3. Gwion Evans
**Dafad Flwydd**
2. Gwion Evans
**Oen Fenyw**
1 a 3. Gwion Evans
**Grŵp**: Gwion Evans
**Cilwobr**: Gwion Evans

**DEFAID BRIDIAU PRIN ERAILL**
Oen Hwrdd
3. Trefor Jones, Cwmcae
Dafad
2. Trefor Jones






pp.indd 7 6/9/11 21:57:22

**Dafad Flwydd**
2. Trefor Jones
**Oen Fenyw**
1. Trefor Jones
2. Elfed a Ffion Jones, Berthlwyd
**Grwp**: Trefor Jones
**Cilwobr**: Trefor Jones

**GWLAN AR Y CARN**
**Gwlan gwyn – bridiau mynydd**
3. R Bailey

**TYWYSYDD IFANC**
**Dangosydd gorau o dan 12 oed**
2. Llyr Jones, Llety Cynnes
**Dangosydd gorau rhwng 12 a 16 oed**
2. Gwion Evans

**WYN TEWION**
**Pâr o wyn yn pwyso llai na 70 pwys yn fyw**
2. Teulu Tynant
**Pâr o wyn yn pwyso 70 pwys neu fwy yn fyw**
3. Dylan Morgan ,Alltgoch
**Pâr o wyn o unrhyw Frîd Mynydd Pur**
1. Dylan Morgan
2. Martin James, Cerrigcyranau Isaf
3. R Bailey, Lletyifanhen

**CNEIFIO**
**Peiriant – Agored**
1. Rhydian Evans, Tynant
2. Elgan Evans, Tynant

**Peiriant – C.Ff.I**
1. Elgan Evans

**CWN**
**Cwn Defaid**
2. Lois Williams, Lletyifanhen
3. Teleri Mair Morgan, Dole
Dangosydd Gorau o dan 12 oed
3. Teleri Mair Morgan

**DOFEDNOD - IEIR**
**Bantam Brid Prin** – Gwryw
2. John Rhys Jenkins, 12 Dôlpistyll
**Bantam Prin** – Benyw
1. John Rhys Jenkins
**Dosbarth y Plant**
1. a Chwpan: Paul Watkin, Heulfor
2. a 3. Bedwyr Siencyn, Tanrallt
**Tlws Janet Jones Llwynglas**
1. Becca Fflur, 12 Dôlpistyll
2. Gwydion James, Cerrigcyranau Isaf
3. Ynyr Siencyn, Tanrallt

**HWYAID**
**Meilart Trwm**
1. John Rhys Jenkins
**Dosbarth y Plant**
**Cwpan**: Becca Fflur
2 a 3. Becca Fflur

**ANIFAIL ANWES**
2. Sion Thomas, 5 Dôlpistyll
3. Glain Davies, Ty Gwyn


*Rhys Wynne Davies, Rhoslan ar gefn Millie'r ceffyl*


*Ceris Williams, Penrhos a enillodd y Cwpan Merlota lleol.*


*John James gyda chi cyflyma'r sioe - Boost*

# Rasus i gŵn

**Dosbarth 1**
**Ras i gŵn defaid**
1af. Lois Williams - Cadi
2il. Ruth Hughes - Myfanwy
3ydd Gwion Evans - Jack

**Dosbarth 2**
**Ras i Ddaeargwn**
1af Bedwyr Jenkins - Pero
2il Tomi Hulme - Jac
3ydd Steve Spencer - Flynn

**Dosbarth 3**
**Ras i Filgwn neu Chwn potsiwr**
1af Sam Mc Mahon - Zac
2il John James - Boost
3ydd Hefin Evans - Bela

**Dosbarth 4**
**Ras i Filgwn bach**
1af Mandy Daniel - Oliver
2il Sandra Gorman - Mari

**Dosbarth 5**
**Ras i unrhyw frid arall coes byr**
1af Dewi Jenkins - Cadi
2il Anna Sistern - Fynn

**Dosbarth 6**
**Ras i unrhyw frid arall coes hir**
1af Katy Pricket - Mole
2il Chris Fry - Star
3ydd Dewi Jenkins - Lleucu

**Dosbarth 7**
**Ras i Ddisgyblion ysgol Gynradd**
1af Sion Manley - Tillie
2il Lily Harvey - Myfanwy
3ydd Jo Harvey - Jake

**Dosbath 8**
**Ras i ddisgyblion ysgol Uwchradd**
1af Gwenno Evans - Jac
2il Iestyn Evans - Celt
3ydd Rhys Evans - Nel

**Dosbarth 9**
**Ras i ferched a'u cŵn**
1af Gwenno Evans Jac
2il Ffion Evans - Celt
3ydd Ffion Wyn - Bela

**Dosbarth 10**
**Ras i ddynion a'u cwn**
1af Dewi Jenkins - Boost
2il Gwion Evans - Sali
3ydd Innis Heron - Harvey

**Ras olaf y diwrnod**
John James - Boost

# SIOE TAL-Y-BONT . SIOE TAL-Y-BONT . SIOE TAL-Y-BONT .

**CEFFYLAU**
**MERLOD MYNYDD CYMREIG**
**Dan gyfrwy**
2. Rhys Norrington-Davies, Tyncae

**MERLOD ADRAN B**
**Dan gyfrwy**
1. Rhys Davies, Rhoslan
**Cilwobr**: Rhys Davies

**CLYBIAU MARCHOGAETH**
**Dan 16 oed**
2. Rhys Davies
**Dros 16 oed**
2. Ceris Williams, Penrhos
**Gwisg Ffansi**
2. Catrin Fflur Manley, Swyn y Leri
3. Sion Norrington-Davies, Tyncae

**MERLOD MYNYDD A GWEUNDIR bach cymysg sy'n cael eu marchogaeth**
2. Rhys Davies
3. Catrin Fflur Manley

**DANGOSYDD IFANC O DAN 12 OED**
2. Catrin Fflur Manley
3. Megan Davies, Rhoslan

**MERLOD MARCHOGAETH**
**Addas i blentyn a aned yn 2001 neu wedi hynny**
1. Catrin Fflur Manley
**Addas i blentyn a aned yn 1998 neu wedi hynny**
1. Rhys Davies
2. Rhys Norrington-Davies
**Dosbarth Lleol**
1. Rhys Davies
2. Rhys Norrington-Davies

**ADRAN MERLOTA**
**Ceffyl Merlota Gorau dros 138cm**
1. Ceris Williams
**Cwpan Merlota (Lleol)**: Ceris Williams

**CEFFYLAU GWEDD**
**Caseg Neu Geffyl**
2. Paul Fleming, Penygraig
**Ebol, Eboles neu Geffyl**
2. Paul Fleming



*Ruth Hughes, Argoed, Tal-y-bont a Myfanwy*



*Bwrlwm y babell*



*Hopcyn Rhys Cosson, Brynarian yn mwynhau danteithion y babell fwyd*



*D B Jenkins, Cerrigcarannau, a'i nai Owen Jenkins, Gwedd yr Ynys*



*Beca Fleming Jenkins a Lola'r Bantam*



*Rowland Davies, Dolclettwr Hall a gafodd lwyddiant gyda'i ddafad Dorset*



*Barrie a Geraint*



*Ynyr a Bedwyr Siencyn, Tanrallt*



*Dafydd Tanrallt ac Emlyn o Rydymain*



pp.indd 9 6/9/11 21:57:47

# SIOE TAL-Y-BONT . SIOE TAL-Y-BONT . SIOE TAL-Y-BONT .



*Elisabeth James, Cwmudw a Dilys Morgan, Alltgoch yn dosbarthu'r gwobrau*



*Tegwen Jones, Glasgoed a Beti Jenkins, Carregcadwgan a fu'n hynod lwyddiannus eleni eto*

**CYNNYRCH FFERM**
**Belen o wair dôl**
2il Bedwyr Siencyn, Tanyrallt, 3ydd Ynyr Siencyn, Tanyrallt

**CYNNYRCH GARDD**
**6 sialotsyn gwyn**
1af Claire Fowler, Bron y Gân
**2 fresychen gyda gwreiddiau**
1af D.R.O. Jones, Berthlwyd
**Sypyn o Domatos**
2il a 3ydd Mai Leeding, Glanant, Tre'r Ddôl
**Casgliad o berlysiau**
3ydd Helen Hicks, Llangynfelyn
**3 Corbwmpen**
1af ac 2il Mai Leeding, 3ydd John Foster, Bristol House
**4 Taten**
1af D.R.O Jones, 2il a 3ydd John Foster
**3 Coesyn Riwbob**
1af Mai Leeding, 2il Helen Hicks, 3ydd G.W Jones, Glasgoed
**4 Ffa Dringo**
1af ac 2il G.W.Jones, 3ydd D.R.O Jones
**Casgliad o lysiau ar hambwrdd**
1af Jan Mitchell, Llangynfelyn, 2il Helen Hicks, 3ydd Claire Fowler

**FFRWYTHAU**
**3 Afal Bwyta**
1af a 3ydd Mai Leeding, 2il Huw Evans, Coed yr Eos, Taliesin
**3 Afal Coginio**
1af a 3ydd Geraint Lewis, York House Tre'r Ddôl
**3 Peren Fwyta**
1af Huw Evans, 3ydd D.R.O. Jones
**3 Peren Goginio**
2il D.R.O Jones, 3ydd Mai Leeding
**3 Eirinen**
2il Emma Lamb, Glandwr, 3ydd Mai Leeding
**3 Eirinen Ddu**
1af Geraint Lewis, 2il Elfed Jones, Berthlwyd
**Clwstwr o Rawnwin**
1af ac 2il Dr G Hughes, Coetmor
Cwpan Mr a Mrs Hywel Evans, Elonwy, Capel Dewi am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran
**Ffrwythau** - Geraint Lewis
**Cwpan Mr a Mrs E Astley, Y Gorlan am yr arddangosfa orau yn yr adran ffrwythau** - Mrs Mai Leeding

**BLODAU**
**6 Pysen Bêr**
3ydd Huw Evans, Coed yr Eos
**4 Trilliw**
3ydd Nicola Myring-Thomas
**6 Math o Flodau'r ardd wedi'u henwi mewn ffiol**
3ydd Sheridan Haley, Staylittle
**Cynhwysydd o flodau blynyddol nad ydynt wedi'u crybwyll yn gynt**



*Gwen a Peter Manley Llywyddion y Sioe yn cyflwyno gwobr i Menna Morgan yr Is-Gadeirydd.*

3ydd Nicola Myring-Thomas
**Planhigyn Suddlon mewn Pot**
1af Gwenno Evans, Tanllan, Taliesin
**Planhigyn Dail mewn Pot**
1af Nicola Myring-Thomas
**Planhigyn tŷ yn ei flodau**
3ydd Mai Leeding
**Begonia**
1af Catherine Moulder-Jones, Llwynadda
**Gardd fach ar blât**
1af Ffion Hicks, Llangynfelyn
**Casgliad o flodau gwyllt**
1af Ffion Hicks, 2il Sion Nelmes, Tre'r Ddôl, 3ydd Dylan Wyn Benjamin, Dôl Pistyll
**Blodyn twll botwm**
2il Liz Roberts, Maes y Deri, 3ydd Chris Gilbert, Tre'r Ddôl
**Tusw Ysgwydd**
3ydd Liz Roberts
**Basged grôg yn ei blodau**
1af Nicola Myring-Thomas, 2il Mai Leeding
**Blwch Ffenest yn ei blodau**
2il Mai Leeding
**Cwpan Coffa Mrs Miriam Roberts yn gyfyngedig i blwyfi Ceulanmaesmawr a Llangynfelyn am y marciau uchaf yn adran y blodau** - Nicola Myring-Thomas
**Cwpan yn rhoddedig gan Dr Myrtle Parker, Ger y Plas am yr ardd fach orau** - Ffion Hicks



*Betsan Siencyn, Tanrallt gyda'i chacennau cri buddugol*



*Lynwen Herbert Morgan, Pentre Bach*

**GOSOD BLODAU**
**Rownd a Rownd**
1af Chris Gilbert, Tre'r Ddôl
**Rhapsodi mewn Gwyrdd**
3ydd Chris Gilbert
**Unigedd Niwlog**
2il Chris Gilbert
**Rhewllyd**
3ydd Chris Gilbert
**Medrwn Gyda'n Gilydd**
1af Emma Lamb, 2il Claire Fowler

**COGINIO**
**Cacen Dundee**
1af Carol Davies Taliesin, 3ydd Mai Leeding



pp.indd 10 6/9/11 21:58:27



*Criw lleol yn mwynhau'r rasus cwn*

**Cacen Gwpan**
1af Jane Bailey, Troedrhiwseiri, Bontgoch, 3ydd Mari Lewis, Hen Siop Esgidiau
**Cacen Ffrwythau**
1af ac 2il Mai Leeding
**Sbwng Fictoria**
3ydd Mai Leeding
**Cacen Lemwn**
1af Carol Davies
**Cacen Datys a chnau Ffrengig**
1af Menna Morgan, 4 Dôl Pistyll
Bara Brith
1af Menna Morgan, 3ydd Janet Jones, Llwynglas
**Torth Gartref**
1af Sheila Talbot, 2il Ianto Hammonds, Bontgoch, 3ydd Catherine Moulder-Jones
**4 Sgon Sawrus**
1af Lynwen Herbert-Morgan, Pentrebach, 2il Menna Morgan, 3ydd Jane Bailey
**6 Pice ar y Maen**
1af ac 2il Betsan Siencyn, Tanyrallt, 3ydd Myfanwy James, Bryn Eglur
**Pei Meringue Lemwn**
1af ac 2il Marion Evans, Tŷ Nant, 3ydd Carol Davies
**Cacen Gaws**
2il Carol Davies
**6 Leicec**
1af Myfanwy James, 2il Carol Davies

**4 Rholyn Selsig**
1af Jane Bailey, 3ydd Nick Bryan, Minafon
**Fflan Sawrus**
2il Betty Jankins, Carregcadwgan
**Tarten Ffrwythau**
1af a 3ydd Marion Evans
**4 Fflapjac**
1af Frances Foster, Bristol House, 2il Sian Evans, Tanlan
**4 Eclair**
1af ac 2il Marion Evans
**Fy Hoff Bwdin**
1af Emma Lamb,
3ydd Sian Evans, Tanllan

**CYFFEITHIAU**
**Jam ffrwythau gyda charreg**
1af ac 2il Dilys Morgan, Alltgoch
**Jeli Ffrwythau**
3ydd Tegwen James, Glasgoed
**Ceuled Lemwn**
1af Ellyw Jenkins, Tanyrallt, 2il Janet Jones, 3ydd Tegwen Jones
**Jar o Bicl Cymysg**
1af Janet Jones, 2il S.E. Lewis, Tre'r Ddôl, 3ydd Tegwen Jones
**Jar fach o Jeli Mint**
1af Ellyw Jenkins, 2il Tegwen Jones, 3ydd S.E. Lewis
**Jar o Gyffaith Anarferol**
1af ac 2il S.E. Lewis, 3ydd Jane Bailey



*Ffion Hicks, Ffion Nelmes, Sion Nelmes a Miriam Llwyd Davies a enillodd wobrau yn y cystadlaethau celf*



*Mai Leeding a fu'n llwyddiannus gyda'i chacen ffrwythau a'i Victoria Sponge*

**Tri Cyffaith i'w cyflwyno fel anrheg** 1af Ellyw Jenkins, 2il Tegwen Jones, 3ydd S.E. Lewis
**Dysgl Fach o Gôlslo**
2il Carol Davies, 3ydd Nick Bryan
**Potel o win gwyn sych**
2il a 3ydd S.E. Lewis
**Potel o win gwyn melys**
3ydd S.E. Lewis
**Potel o win coch melys**
2il Rhian Williams Watkin, Henllys

**CYNNYRCH LLAETHDY**
**4 Wy Brown**
2il Ryan James, Tre'r Ddôl, 3ydd Gwydion James, Cerrig Cyranau Isaf
**4 Wy Gwyn**
1af Paul Watkin, Heulfor, 3ydd Ianto Hammonds, Bontgoch
**4 Wy Arlliwedig**
1af Margaret Jenkins, Tynygraig
**4 Wy Bantam**
2il Bedwyr Siencyn, Tanrallt
**4 Wy Hwyaden**
3ydd Helen Hicks

**MÊL**
**Jar o fêl ysgafn**
3ydd Richard Spencer, Ty Manceinion, Taliesin
**Cacen o gwyr**
2il Richard Spencer
**Crib o fêl bas**
1af Richard Spencer

**GWAITH LLAW**
**Sampler**
1af Betty Jenkins, 2il a 3ydd Dilys Morgan
**Croesbwyth**
2il Tegwen Jones
**Clustog**
1af Betty Jenkins, 2il Dilys Morgan
**Crosio**
2il a 3ydd Dilys Morgan

**PRIF ENILLWYR Y SIOE**

**CEFFYLAU:**
**Pencampwr y Sioe**: Daniel Morgan, Llambed

**GWARTHEG**
**Da Duon**: R Hughes, Bodorgan
**Da Biff**: Llyr James, Penbanc, Penrhyncoch

**DEFAID**
**Defaid Duon**: D R L Williams, Talley
Defaid Penfrith: R Howatson, Dinbych
**Balwen**: Meinir Jones, Capel Isaac, Llandeilo
**Torddu**: T G King, Llanelli
**Torwen**: J L Page, Capel Gwynfe
**Jacob**: A M Jones, Llanfynydd
**Suffolk**: Dafydd Morgan, Llanfihangel y Creuddyn
**Charollais**: D A Morgan, Cross Inn,Llandysul
**Bridiau Pur**: Rhys Lloyd, Tremeirchion
**Bridiau Prin**: Dyfrig a Myfyr Jones, Conwy
**Pencampwr Pencampwyr y Defaid**: Dafydd Morgan (Suffolk)
**CNEIFIO**
**Gwellaif**: Gwynros Jones, Dolwyddelan

**CWN**
**Dangosydd Gorau dan 12 oed**: John Paul Jones, Ynyslas
**Arddangosiad Gorau**: Sally Reading, Pontrhydygroes
**Arddangosiad Gorau**: Rhian Davies, Llanbadarn

**DOFEDNOD**
**Ieir**: Les Davies, Pennant
**Hwyaid**: Mrs C Cookson, Drenewydd

**GEIFR**
**Gafr Odro**: Aeron Edwards ac Edith Davies, Llanilar
**Gafr Flwydd**: Aeron Edwards ac Edith Davies
**Min Gafr**: Aeron Edwards ac Edith Davies

**Gwaith Cynfas**
1af Betty Jenkins, 2il Dilys Morgan
**Eitem yn dangos amrywiaeth o bwythau**
1af a 3ydd Dilys Morgan, 2il Betty Jenkins
**Decoupage**
1af ac 2il Betty Jenkins, 3ydd Tegwen Jones
**Cwpan Pwythau'r Sgubor gynt am yr arddangosfa orau** - Dilys Morgan
**Cwpan yn rhoddedig gan deulu Brongenau, Llandre am y nifer uchaf o bwyntiau** - Betty Jenkins


**CREFFTAU**
**Ffon Gerdded**
3ydd Ianto Hammonds, Pennant, Bontgoch
**Ffiol ffrwythau**
3ydd Jenny Fothergill, Minafon
**Crochenwaith**
2il Ffion Jones, Berthlwyd
**Paentiad**
3ydd Peter Monaghan, Bancyfelin
**Paentiad cyfyngedig i drigolion Ceulanmaesmawr a Llangynfelyn**
1af Menna Morgan, 2il S Haynes, 3ydd Caroline Maddison, Yr Hen Gapel Ceulan
Cwpan yn rhoddedig gan Mr a Mrs G Evans, Tancoed, Llanilar am yr arddangosfa orau yn yr adran grefftau - Menna Morgan

**FFOTOGRAFFIAETH**
**Tymor o'r Flwyddyn**
3ydd Catrin MS Davies, Simdde Wen
**Newid Hinsawdd**
2il Elfed Jones, Berthlwyd, 3ydd Garmon Nutting, Ty Hen Henllys
**Ceredigion**
2il Catin MS Davies
**O Na Fuasech Yma**
2il Dafydd Hughes, Coetmor
**Portread**
1af Lois Jones, Gellimanwydd
**Bywyd y Nos**
2il Ianto Hammonds

**CLWB FFERMWYR IFAINC**
**4 Cacen pili pala**
3ydd Gwenno Evans, Tanllan
**Gwaith Coed**
1af ac 2il Gareth Jenkins, Ynyseidiol, 3ydd Hefin Evans, Neuaddfawr
**Ffotograffiaeth**
1af Garmon Nutting
**Gwaith Metal**
1af a 3ydd Rhydian Evans, Neuaddfawr, 2il Gwion Evans, Tanllan
**Cwpan Aeron Edwards am yr arddangosfa orau yn adran y Ffermwyr Ifainc** - Gareth Jenkins

**PLANT CYNRADD**
**Llun o fi fy hun**
1af Miriam Davies, 2il Deio Llwyd Edwards, 3ydd Jenna Curran
**Llun Anifail Anwes**
1af Theresè Melad Woodling 2il Dyfri Cunningham, 3ydd Heddwyn Cunningham
**Unrhyw Dymor**
2il Ioan Joseph, 3ydd Sky Foulston
**Argraffu ar Ffabrig**
1af Ffion Hicks, 2il Tomos Jenkins, 3ydd Louisa Williams
**Argraffiad o ardal Tal-y-bont**
1af Celyn Evans, 2il Aled Jones, 3ydd Harry Mason
**Argraffiad o ardal Tal-y-bont**
1af Sion Nelmes, 2il Isha Howard, 3ydd Bestan Siencyn

**YSGOL UWCHRADD**
**Salad**
1af ac 2il Ffion Nelmes
Cacen heb ei Choginio
2il Ffion Nelmes, 3ydd Gwenno Evans
**Gemwaith Bwytadwy**
1af ac 2il Ffion Nelmes, 3ydd Gwenno Evans
**Ffotograff**
2il Ffion Nelmes, 3ydd Ffion Jones, Berthlwyd
**Fy Nghartref**
2il Lois Jones, 3ydd Ffion Nelmes
**Cerdyn Cyfarch**
1af Ffion Nelmes
**Cwpan Maesmeillion am y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran uwchradd** - Ffion Nelmes






# Dyddiadur Cadeirydd Prysur

Dydd Sul cyn y sioe - Gwrando ar y tywydd (fel mae pob ffermwr yn ei wneud!) i weld sut dywydd oedd o'n blaenau, glaw a haul dyna beth roeddynt yn addo. Wel! Mae gobaith am ddiwrnod sych!

**Bore Llun** - Dewis ŵyn menyw yn barod i'r gystadleuaeth gneifio yn y sioe, a defaid ac ŵyn i'r gystadleuaeth defaid mynydd ac ŵyn tew.

**Nos Lun** - Cyfarfod olaf cyn y sioe, pawb yn bresennol yn y pwyllgor a phawb yn hwyliog iawn ac yn edrych ymlaen i'r sioe. Janet a Dilys yn dweud bod yr 'entries' yn dod i mewn yn dda. Arvid Parry-Jones yno i dynnu llun y pwyllgor gyda'r Llywyddion Mr a Mrs Peter Manley.

**Dydd Mawrth** - Dechrau ysgrifennu fy araith.

**Dydd Mercher** - Cwrdd â Keith, Fedwen, (boss y pebyll!) lawr yng nghae'r sioe iddynt gael gosod y pebyll yn eu lle. Tri o'r gloch cwrdd â David Morgan prif stiward y gwartheg â'r defaid, i gael trefnu lle i osod y corlannau. Pawb arall yn helpu dod a'r polion a'r gatiau a phethau eraill sydd angen arnom o Gynnullmawr a Bwlchyddwyallt. Paratoi y cae tan wyth o'r gloch yr hwyr ac yna adre ac yn ôl at yr araith.

**Dydd Iau** - Mynd ag arwyddion Sioe Tal-y-bont o amgylch y pentrefi cyfagos, o Dal-y-bont i Benparcau. Gwneud trefniadau a chasglu'r diffoddwyr tân i gael eu rhoi yn y dair pabell sydd ar y cae.

**Prynhawn Iau** - Gwneud trefniadau i gwrdd â'r heddlu i gael gwneud yn siŵr fod popeth yn mynd i fod yn iawn gyda'r holl gerbydau a'r loriau sydd yn dod i'r sioe. Cofio casglu'r côns ar gyfer eu rhoi allan ar y ffordd, er mwyn sicrhau llwybrau clir i'r cae.

**Nos Iau** - Lawr ar y cae yn gosod i fyny'r babell ieir. Cael cymorth gan aelodau'r pwyllgor a ffrindiau. Rhaid i'r babell fod yn ei lle cyn i'r cewyll gyrraedd dydd Gwener.

**Bore Gwener** – Gosod y côns allan ar y ffordd yn barod ar gyfer y sioe.

**Prynhawn Gwener** - Lawr eto ar y cae yn paratoi gyda'r gwirfoddolwyr eraill. Hefyd gan fy mod yn gadeirydd Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont, paratoi gêmau ar





pp.indd 12 6/9/11 21:58:46

# SIOE TAL-Y-BONT .

gyfer ein stondin, gyda'r aelodau eraill.

**Nos Wener** - Gwrando ar y tywydd, addo glaw yn ystod y nos, felly penderfynu rhoi'r ŵyn sydd i gneifio dan do yn y gobaith y bydd yn ddiwrnod sych yfory. Paratoi'r gynffon yn barod, ar gyfer y rasus cŵn. Deg o'r gloch yr hwyr mynd drwy'r araith.

Hanner awr wedi hanner nos - bwrw glaw yn drwm a mellt a tharannau i'w clywed yn bell. Gobeithio na ddônt yn nes at Dal-y-bont!

**Bore Sadwrn** - Codi am saith i law trwm. Mynd â'r defaid mynydd lawr gyda fi yn y treiler i'r gystadleuaeth a chyrraedd y cae. Pawb yn groesawgar iawn, a'r gofid am y glaw yn pylu wrth i bawb fwrw ati i gystadlu yn erbyn ei gilydd. Dyna ddangos rhuddin pobol cefn gwlad, does dim ots beth yw'r tywydd fe awn ymlaen. Pum munud i naw, i mewn i fan yr uchelseinydd, at Gwyn i gael agor y Sioe yn swyddogol, croesawu ein llywyddion Mr a Mrs Peter Manley, y cystadleuwyr a'r cyhoedd i'r sioe. Teimlo'n hapus iawn fod y sioe wedi cychwyn a hithau'n sych a'r haul yn gwneud ei orau i ddod allan. Nôl at y gystadleuaeth defaid mynydd ag amser i sgwrsio gyda'r cystadleuwyr eraill a'r beirniaid.

**Prynhawn Sadwrn** - Mynd o amgylch y babell fawr a gweld y cynnyrch yn edrych ar ei orau. Chwarter i dri cyflwyno llywyddion Sioe Tal-y-bont 2011 ac yna gwrando ar araith bwrpasol Mr Peter Manley. Nôl yn syth i baratoi ar gyfer y gystadleuaeth cneifio gyda chymorth y stiwardiaid. Finnau'n cneifio yn adran y C.Ff.I ac yn ennill y cwpan, bles iawn am hyn. Dod yn ail yn y dosbarth agored hefyd a Rhydian 'y mrawd yn ennill. Lawr wedyn i waelod y cae i baratoi ar gyfer y rasus cŵn gyda'r stiwardiaid eraill. Pawb yn mwynhau y cyffro sydd i'w gael gyda'r rasus. Cwbwl drosodd. Teimlo ein bod wedi cael sioe lewyrchus iawn eleni eto, er gwaetha'r tywydd, gyda chystadlu brwd yn y babell a'r ceisiadau ar i fyny yn adran yr anifeiliaid. Torrwyd record yn adran y defaid ac roedd yr adrannau eraill yn llewyrchus iawn. Lawr ychydig oedd adran y ceffylau, ond serch hynny teimlad braf oedd y ffaith ein bod wedi llwyddo i ddenu enillwyr y Sioe Frenhinol i ddod i gystadlu.

**Dydd Sul** – Am ddeg lawr i'r cae i gwrdd ag aelodau a ffrindiau er mwyn tynnu lawr y babell ieir. Casglu sbwriel ar hyd y cae.

**Dydd Llun** – Am wyth o'r gloch pawb yn cwrdd yn brydlon yn y cae i dynnu'r polion, a chlirio popeth o eiddo'r sioe. Rhoi i'w cadw am flwyddyn arall. Ac i orffen y cwbwl paned o de a chacen am ddeg. Teimlo'n ddiolchar iawn i bawb am eu help a thrwy dudalennau'r papur hoffwn ddiolch o galon i'r gwirfoddolwyr sydd yn ddiwyd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn paratoi caeau'r sioe ac yn eu clirio ar y dydd Llun Gŵyl y Banc canlynol.

Elgan Evans,
Tynant. (Cadeirydd)


Bistro
Gannets

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30


# Tai Cymdeithasol Newydd ym Maes-y-deri, Tal-y-bont

Cynhaliwyd Cyfarfod Cyhoeddus yn Nhalybont, nos Lun y 5ed o Fedi i drafod y datblygiadau diweddaraf a phryderon y bobl leol ynghylch cais Tai Ceredigion i adeiladu 4 i 6 o dai newydd ym Maes-y-deri, Talybont.
Yn amodol ar dderbyn caniatad cynllunio, mae Tai Ceredigion yn disgwyl dechrau'r gwaith adeiladu yn gynnar yn 2012. Yn dilyn deiseb a drefnwyd gan Sue Jones-Hughes, Maes-y-deri, yn gwrthwynebu'r datblygiad, galwyd am y cyfarfod i gael trafod pryderon pobl leol ynghylch y cais. Yn ôl rhai o drigolion Maes-y-deri byddai codi 6 o dai newydd yn arwain at broblemau parcio a thraffig, llai o breifatrwydd yn ogystal â denu mewnddyfodiaid a allai amharu ar gymdeithas glos Maes-y-deri. Byddai'r tai yn cael eu codi hefyd ar lecyn lle mae plant yn, ac wedi, chwarae ers blynyddoedd lawer.
Yn anffodus, methodd Steve Jones, Prif Weithredwr Tai Ceredigion, fynychu'r cyfarfod ond cafwyd cyflwyniad gan Digby Bevan, Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion, ar y Polisi Tai Lleol.
Yn ôl Mr Bevan, mae Cyngor Cymuned Ceulanmaesmawr am sicrhau bod y flaenoriaeth wrth osod tai yn mynd i bobl sydd wedi byw yng nghymunedau Ceulanamaesmawr, Llangynfelyn ac Ysguborycoed am o leiaf 5 mlynedd a bod addewid i ymgynghori'n agos gyda'r Cyngor Cymuned ym mhob cam o'r broses.
Mae'r Cyngor Cymuned wedi cytuno i gydweithio â Digby Bevan, ar lunio Polisi Tai Lleol ac i helpu i gynnal arolwg i'r anghenion tai lleol er mwyn casglu tystiolaeth a gwybodaeth o'r angen lleol. Yn ôl Tai Ceredigion, maent yn awyddus i sicrhau bod pobl â chysylltiadau lleol yn cael blaenoriaeth wrth i'r tenantiaid ar gyfer y tai newydd gael eu dewis.
Bydd holiadur yn cael ei anfon at bob ty yn yr ardal ddechrau mis Medi. Gofynnir yn daer i holl breswylwyr yr ardal gwblhau'r holiadur a'i ddychwelyd erbyn y dyddiad dynodedig.
Ategodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn hynny gan nodi bod angen gwthio'r Polisi Gosod Lleol "Mae'n bwysig bod trigolion lleol yn rhoi gwybod trwy'r arolwg faint o angen sydd am dai yn lleol".


GAREJ DAVMOR
M.O.T., Gwasanaeth, Batris a Theiars
Gellir llogi car, fan neu fws mini i'w gyrru eich hun
www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

# argraffu da
*am bris da*



y Lolfa holwch Paul am bris ar **paul@ylolfa.com**
01970 832 304 **www.ylolfa.com**




*Gweinidog a Diaconiaid Eglwys Bethel yn croesawu tri o ddiaconiaid newydd i'w plith. Llun: Ann Jenkins*


CANOLFAN M.O.T. HUW LEWIS M.O.T. CENTRE — Glanyrafon

**Teiars**
**Aliniad Olwyn**
**Ecsôsts**
**Batris**
**Brêcs**
**Hongiad**
**Bar tynnu**
**Gwasanaeth MOT**

TEIARS HUW LEWIS TYRES — Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan **ALIGNMYCAR.CO.UK**
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

**HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774**

## Gwasanaeth Tylino Proffesiynol

yng nghysur eich cartref

**yn arbenigo mewn tylino corff ac ar gyfer chwaraeon**

Am fanylion pellach cysylltwch a Michelle ar y ffon **01654 781314** or **07984 501479**

michellejsymes@btinternet.com

Prisiau cystadleuol a chanolwyr lleol ar gael



## Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion
i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd

- Chwilio am ofal plant?
- Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
- Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc?
- Eisiau hysbysebu gweithgareddau plant a phobl ifanc?

**Cysylltwch â ni am fanylion pellach**

**Ffôn/Phone: 01545 574187 E-bost: cis@ceredigion.gov.uk**
**Gwefan: http://cis.ceredigion.gov.uk**
Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA


**Mesur yr angen lleol am dai newydd.**

Ym mis Medi cynhelir arolwg yn ardal Papur Pawb i fesur yr angen lleol am dai newydd. Bydd pob tÐ yn yr ardal yn derbyn holiadur.

**Pam?**

I asesu'r angen lleol am fwy o dai cymdeithasol ar gyfer rhentu
I asesu barn pobl leol tuag at adeiladu mwy o'r fath yma o dai

Mae angen tystiolaeth am angen tai lleol er mwyn sicrhâu bod 'polisi gosod lleol' yn cael ei weithredu wrth ddewis tenantiaid ar gyfer unrhyw dai newydd sy'n cael eu datblygu gan gymdeithasau tai, ym Maesyderi, Tal-y-bont neu rhywle arall.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â **Digby Bevan**, Hwylusydd Tai Gwledig Ceredigion,
**01545 574129** neu **digby.bevan@ceredigion.gov.uk**


## GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON



**GERAINT JAMES**
**Ffôn: 01970 612459**
**Mob: 07967235687**
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3SL

Cofiwch ymweld â gwefan **Papur Pawb**
**papurpawb.com**

Siop y Pethe
Aberystwyth
Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

**Cefnogwch ein hysbysebwyr**




pp.indd 14 6/9/11 21:58:53

# Diwrnod Hwyl

Cynhaliwyd diwrnod hwyl yn Nhal-y-bont ar 25 Mehefin lle daeth aelodau, hyfforddwyr a chefnogwyr o dîmau pêl-droed ieuenctid Tal-y-bont ynghyd i fwynhau ac i godi arian ar gyfer cynnal y clwb.

Cychwynodd y diwrnod â thwrnament pêl-droed 5 bob ochr, ar ffurf Cwpan y Byd, ar Maes Chwarae Cae'r Odyn Galch a thimau cymysg o ran oed a rhyw yn cystadlu am y gorau.

Newidwyd y ras hwyaid i Hwyaden Lwcus a thynnu allan o 'parachute', Amanda Trubshaw, Borth yn ennill y wobr gyntaf o £100, Glen Creeber, Tal-y-bont, yn ail £50, a Tasha Williams, Clarach yn cipio'r drydedd wobr o £25.

Penllanw'r gweithgareddau oedd noson deuluol wrth y patsyn glas lle cynhaliwyd barbeciw, raffl a chwis. Daeth tyrfa gref ynghyd i fwynhau cwmni ei gilydd er y tywydd oer ac ar ddiwedd y noson roedd y cyfanswm a godwyd wedi cyrraedd dros £1,800.

Roedd llwyddiant y diwrnod yn sicr yn ganlyniad i drefniadau ardderchog y clwb ac i ymroddiad yr aelodau hynny a fu'n paratoi am wythnosau o flaen llaw. Hefyd diolch i'r holl gefnogwyr a'r noddwyr a ddaeth i sicrhau dyfodol llewyrchus i glwb pêl-droed ieuenctid Tal-y-bont. Diolch hefyd i Anwen a Wendy am drefnu'r bwyd yn ystod y dydd ar nos.





*Enillwyr twrnament iau (Tyrone, Mareid, Tomos, Ioan, Bedwyr)*



*Enillwyr twrnament hyn (Harri, Domanic, Dylan, Eilir, Ryan, Declan)*

**Diwrnod Agored yr Eglwysi – 17 Medi 2011**

Bydd llawer o Eglwysi trwy Gymru yn agor eu drysau i'r cyhoedd ar ddydd Sadwrn, 17 Medi.

Mi fydd Eglwys Dewi Sant Tal-y-bont ar agor rhwng **10.00 y bore a 4.00 pnawn** pryd y ceir cyfle, os dymunir, i edrych ar lyfrau cofnodi gwasanaethau Bedyddio a Phriodasau neu gael paned bach o de a mwynhau tawelwch yr Eglwys.

**Rhoddir croeso i bawb.**


MID WALES STORAGE

**Storfa Canolbarth Cymru**

STORFA DODREFN | STORFA FUSNES ARCHIFAU

STORFA I FYFYRWYR | PACEDU

**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV**
**WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

**www.midwalesstorage.co.uk**
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
**Ffôn: 01654 703592**




pp.indd 15 6/9/11 21:59:00

# CHWARAEON

## Cae'r Odyn Galch

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas Maes Chwarae Cae'r Odyn Galch ar 30 Mehefin yn Neuadd Goffa, Tal-y-bont, gyda chyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli wedi hynny. Adroddwyd bod y cytundeb gyda'r perchennog wedi'i arwyddo a diolchwyd i Barri Jones am ei gyngor cyfreithiol. Adroddwyd bod peiriant torri gwair a marciwr cae i'w prynu'n fuan a thrafodwyd y posibilrwydd o godi arwydd ger y fynedfa. Cytunwyd bod angen ymgyrch codi arian a chytunodd Ceri Jones i ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnal 'noson rasys' yn y Llew Gwyn dros y gaeaf. Cytunwyd hefyd bod angen i unrhyw gymdeithas neu unigolyn a oedd am gynnal digwyddiad ar y maes dderbyn caniatâd ymlaen llaw gan y swyddogion.

Etholwyd y canlynol yn aelodau'r Pwyllgor Rheoli: Ellen ap Gwynn (cadeirydd). Gwyn Jenkins (ysgrifennydd), Marc Richards (trysorydd), Ceri Jones, Gwilym Huws, Wendy Jones, Mark Ebenezer, Anthony Southgate, Bryn Smith, Alun Davies, a chyfetholwyd Barri Jones a Wyn Benjamin.



*Enillwyr yn nhwrnameint darts a pwl er cof am Steven Southgate.*

**Darts**

*Adran A*

1. Spencer Davies
2. Richard Jones
3. Mark Ebenezer
4. Jase Brookes

**Adran B**

1. Kiran Kelly
2. Lauren Southgate
3. Sam Ebenezer
4. Lowri Hughes

**Pwl**

1. Dylan Roberts
2. Gareth Pritchard
3. Keith Pritchard
4. Owain Jones



## Golffiwr o fri

Llongyfarchiadau i Elgan Griffiths,Y Gorlan , Taliesin ar ennill dwy wobr gyntaf mewn cystadleuaethau ar gwrs golff Borth ac Ynyslas dros yr haf.


**Gofal Traed Aber**

**Ceiropodydd • Podiatrydd Cofystredig gan yr H.P.C.**

- Triniaethau ar ewinedd a chyrn
- Llawdriniaeth ar gasewinedd
- Triniaeth/asesiad arbenigol ar draed diabetig
- Gwadnau ac asesiad biomechanyddol

**Triniaeth yn y cartref ar gael**

Galwch Shân Jones neu Richard Ellison **01970 617269**

4, Y Porth Bach, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AR



NFU Mutual

INSURANCE PENSIONS INVESTMENTS

We do right by you

**Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau**

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:

**01970 612331**

www.nfumutual.co.uk/aberystwyth

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (No. 111982). Registered in England. Registered Office: Tiddington Road, Stratford Upon Avon, Warwickshire CV37 7BJ. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.

James Memorials

Am GOFEBAU ARBENNIG BEDDARGRAFFIADAU ADNEWYDDU O SAFON ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**CODI TŶ NEU ESTYNIAD?**



Iwan Jones, Technegydd Pensaerniol
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

Cofiwch ymweld â gwefan **Papur Pawb**

**papurpawb.com**




pp.indd 16 6/9/11 21:59:07